**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

9 Awst 2022

Annwyl Weinidog,

Yr wythnos diwethaf clywsom y newyddion ofnadwy bod ffliw adar pathogenig iawn (HPAI), neu ffliw adar, wedi'i gadarnhau mewn huganod gogleddol ar Ynys Gwales, sef y trydydd mwyaf o blith nythleoedd y byd.

Yr haf hwn, mae ffliw adar wedi lledu'n gyflym drwy nythfeydd adar môr yn yr Alban ac o amgylch arfordiroedd Môr y Gogledd. Roedd asesiadau cychwynnol yn awgrymu cyfraddau marwolaethau o leiaf 25% o adar mewn rhai cytrefi a hyd at 85% mewn eraill. Mae nifer y rhywogaethau sy'n profi'n bositif wedi cynyddu'n gyflym ac mae'n cynnwys môr-wennol bigddu, huganod, gwylanod coesddu, palod a llurs.

Mae ffliw adar yn fygythiad i gytrefi adar môr rhyngwladol bwysig Cymru. Mae dros hanner poblogaeth y byd o adar drycin Manaw yn nythu dan ddaear mewn tyllau ar ynysoedd Sgomer, Sgogwm, Middleholm, Enlli a Dewi, gyda thros 350,000 o barau ar Sgomer yn unig.

Yn sgil darganfyddiad y ffliw adar ar Ynys Gwales, byddwn yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am y camau brys sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn a'r gwaith i ddatblygu Cynllun Ymateb Cenedlaethol ar gyfer ffliw adar mewn adar gwyllt. Ar ben hynny, hoffwn ichi egluro'r camau yr ydych yn eu cymryd i hybu gwydnwch adar y môr yn wyneb achosion yn y dyfodol.

Mae'r achosion hyn o ffliw adar yn bryder i'r Pwyllgor. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater dros y misoedd nesaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg./ We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
Welsh Parliament